



[www.capelytraeth.com](http://www.capelytraeth.com)

Rhif 125

Mai 2022

Oedfa	Cyhoeddi	Blodau
01 Sul Aelodau	G.J	Siân Jones
08 Gweinidog	B.R.	Gwyneth Jones
15 Gweinidog	G.P.	Nia Jones
22 <b>Gwasanaeth Undebol y dref ar ddiwedd wythnos Cymorth Cristnogol</b>		Rhian Ellis
29 Nerys Griffith	A.E.	Adran Saesneg

- 10 Drws Agored yn y festri am 10 y.b.
- 17 Drws Agored yn y festri am 10 y.b.
- 24 Drws Agored yn y festri am 10 y.b.
- 31 Drws Agored yn y festri am 10 y.b.

### Te a Tost

Ie, rydych wedi darllen yn gywir! Mae'n fwiad gennym ail ddechrau'r cyfarfodydd hyn ar foreau Mawrth bob wythnos rhwng 10 ac 12 yn y festri. Bydd y cyfarfod cyntaf ar 10 Mai am 10 o'r gloch. Edrychwn ymlaen i'ch croesawu unwaith eto.

### Derbyn Aelod

Pleser oedd cael derbyn Non Griffiths, Mynydd Ednyfed yn gyflawn aelod yn ystod y gwasanaeth fore Sul y Pasg. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn ein cwmni Non.



### Prynhawn Sul 1 Mai am 3.30

Datganiad ar yr organ gan Bryn Jones ac Ildid Anne Jones  
a Chaneuon gan Gwyneth Glyn a Twm Morys.  
Tocynnau £6 yn cynnwys paned a chacen.

*Elw tuag at Eisteddfod Genedlaethol 2023*

cymorth  
cristnogol



## Wythnos Cymorth Cristnogol Mai 15 – 22

Dydd Mercher Mai 18 am 3.00 Festri Capel y Traeth

### Te Mefus - Tocyn £5

Tocyn gan aelodau pwyllgor Cymorth Cristnogol  
Neu 01766 522794



### Sialens y £5

Cyflwynir £5 i unigolion neu grŵp ar Sul Mai 15

a rhoddir mis yn unig i droi y £5 yn gyfraniad i Cymorth Cristnogol

- yna rhaid dychweled y £5.

Mwy o wybodaeth 01766 523794

Dydd Sadwrn Mai 21 am 3.00 ar y prom yng Nghricieth

**Dwylo dros y môr –**

**Cadwyn o gariad**

Yn codi bynting 400 metr o hyd i gydio Cymru ag Wcráin.

£2 (o leiaf) i ymuno yn y gadwyn.

Mwy o wybodaeth 01766 523794





Annwyl Bawb,

Daeth y Gwanwyn yn ei rym drwy gydol mis Ebrill, a bu inni fwynhau cyfnodau o dywydd braf. Cysylltw'n Ebrill â Bywyd Newydd yr Atgyfodiad, a do, cawsom fel cynulleidfa gyfle i ddathlu'r Pasg drwy gyfrwng gwasanaethau ar Sul y Palmwydd, Dydd Gwener y Groglith a Bore Sul y Pasg. Drwy gyfrwng y tri gwasanaeth llwyddwyd i edrych i gyfeiriad y gwadu, yr ofni, y dioddefaint a'r gorfoledd. A diolch am gael dod at ein gilydd i wneud hynny, a braf fu cael croesawu rhai o'r tu allan i'n cynulleidfa arferol yn ystod yr Ŵyl.

Mae'n dristwch enbyd inni fel gwareiddiad na fyddai yna sŵn gorfoledd atgyfodiad yn digwydd mewn gwledydd fel Wcráin. Yn wir, sŵn dymchwel, chwalu a lladd sydd yn yr union fannau hynny o fewn y wlad honno (a gwledydd eraill hefyd), a phobl yn gorfod ffoi o'u cartrefi a'u hardaloedd i ddechrau bywyd newydd mewn gwledydd eraill. Efallai y daw'r amser i ninnau yn y rhan yma o Gymru wneud ein rhan i roi lloches i'r teuluoedd yma... pwy a ŵyr. Ond yr unig beth y medrwn ni wneud ydi gweddio am heddwch, a gweithredu drosto hefyd.

A daw mis Mai 'gyda'i firi a'i flodau' meddai Eifion Wyn. Cawn gyfle unwaith eto i addoli, tystiolaethu a gweithredu ymhob modd, ac edrychwn ymlaen i wneud hynny. Diolch am gymdeithas glos, gynnes y gynulleidfa yng Nghapel y Traeth, ac am bawb sy'n cadw'r olwynion i droi'n wythnosol. Mae cyfraniad pawb yn werthfawr, a phleser i mi yw bod yn rhan o'r gweithgarwch hwnnw.

Bendith arnoch i gyd.

Cofion,

Iwan Llewelyn.

**Cofion** Dyma gyfle eto i gofio'n gynnes iawn at bob un ohonoch. Rydym yn meddwl yn arbennig am y rhai ohonoch sydd mewn cartref gofalu neu'n gaeth i'ch catrefi. Mae cyfyngiadau Covid yn dal i gyfyngu ar ein hymweliadau ac rydym yn gobeithio'n arw y gwellith pethau'n fuan.

Cawsom ar ddeall bod Mrs Tom Rees Roberts yn yr Ysbyty ar hyn o bryd. Mae Tom ac Enid wedi setlo'n dda yng Nghartref Plas Hafan, Nefyn ers blwyddyn neu ddwy bellach ond rydym yn dal i gofio am eu ffyddlondeb i'r Capel.

Yn ystod mis Ebrill bu farw dau o'n haelodau sef Mr Hywel Richards, Rowen, a Mrs Mair Jones, Afallon gynt. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at y ddau deulu yn eu colled a'u hiraeth.

**Banc Bwyd** Diolch unwaith eto am eich rhoddion hael i'r banc bwyd. Nodwyd yn y llythyr o ddiolch gan y trefnwyr bod angen dirfawr am y gwasanaeth yma ym Mhwillheli a'r ardal. Yn ystod mis Mawrth roeddent wedi gofalu am fwyd i 101 o bobl yn blant ac yn oedolion. Yn eu bwletin misol roeddent yn dweud bod y nifer ar eu rhestr yn cynyddu o fis i fis. Diolch ein bod yn gallu gwneud ychydig i ateb y galw am gymorth.

## Clwb Sul



Diolch i Anti Bethan, mam Swyn a Sion, am ein dysgu i gyd-adrodd. Cawsom fynd i Steddfod Sir yr Urdd ym Mangor a chael beirniadaeth dda. Braff oedd cael dod i ganu i chi yn y Capel un bore Sul a rhan fwyaf ohonoch yn gwneud hynny am y tro cyntaf. Gobeithio y cawn ddod yn amlach o hyn ymlaen. Efallai bod rhai ohonoch wedi ein clywed yn canu o flaen Dylan's ar y diwrnod agored i godi arian at Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd. Fe wnaethon ni fwynhau gwneud hynny hefyd.



**Clwb Ieuentid** Oherwydd Covid yn yr ysgol bu'n rhaid gohirio ein cyfarfod mis Ebrill. Bydd ein cyfarfod nesaf ar 6 Mai pryd y byddwn yn coginio hefo Anti Siân ac Anti Gwen.